

Yn dilyn fy e-bost dyddiedig 17 Mehefin 2015, rwyf nawr mewn sefyllfa i allu ateb eich cais am wybodaeth dyddiedig 13 Mehefin 2015, a oedd fel a ganlyn:

- 1. Bod y lwfansau sy'n cael eu hawlio gan bob aelod am fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod yn dangos, ac yn cael eu gwirio/ardystio bod yr aelod hwnnw wedi bod yn bresennol yn ystod y cyfarfod cyfan/ar amser a'i fod yn bresennol drwy gydol y cyfarfod hwnnw.**
 - 2. Yn yr un modd, am yr amser roedd yr aelod yno/yn bresennol yn Neuadd Sir neu leoliad unrhyw gyfarfod, ei fod ef/ bod hi yn y lleoliad am y cyfnod sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith er mwyn hawlio lwfans cynhaliaeth am y cyfnod.**
 - 3. Bod y gofrestr bresenoldeb yn cael ei gwirio a'i harchwilio i brofi bod 1 A 2 uchod yn profi bod y cais am bresenoldeb/cynhaliaeth yn ddilys.**
 - 4. O ran treuliau teithio, bod cais pob aelod wedi'i gydlofnodi fel bod yn ddilys/yn gywir gan y Swyddog perthnasol, a bod y milltiroedd busnes yn cynrychioli'r llwybr byrraf i'r lleoliad/cyfarfod. Cadarnhad y defnyddir darlenniadau o sbidomedrau yn y cais, a bod y rhain hefyd yn cael eu gwirio.**
- O.N. yn fy amser fel cyn Swyddog, roedd hyn yn cael ei wneud i sicrhau bod ceisiadau dilys yn cael eu gwneud. Yn fy marn i dylid trin/gwirio aelodau, fel cynrychiolwyr pobl sy'n talu'r Dreth Gyngor, yn yr un modd.**
- 5. Cefais wybod gan y PA fod gan Swyddfa Archwilio Cymru systemau ar waith wrth wirio treuliau aelodau Cyngor Sir Powys, sy'n cwmpasu'r uchod, a allwch chi gadarnhau os gwelwch yn dda bod hyn yn wir, ac nad gwiriad ar hap yn unig yw hwn o'r holl eitemau yr wyf wedi gofyn amdanynt o ran treuliau aelodau.**
 - 6. Mae'n ofynnol cael dadansoddiad o hawliad archwiliedig pob aelod ar gyfer y flwyddyn 2013/4 ac rwyf yn fodlon ateb unrhyw gwestiynau y gallai fod gennych ynglŷn â'r uchod.**

Nid oes gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, nac archwilydd penodedig Cyngor Sir Powys ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14, wybodaeth sy'n cyfateb i ddisgrifiad eich cais.

Efallai y bydd o gymorth petawn i'n egluro swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilydd penodedig, yn enwedig mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol 2013-14. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14, penodwyd archwilydd cyfrifon Cyngor Sir Powys gan yr Archwilydd Cyffredinol. Oherwydd cychwyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac yn dilyn y darpariaethau pontio a oedd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf honno yn dod i ben, yr archwilydd ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15 yw'r Archwilydd Cyffredinol ei hun erbyn hyn (nid yw'n penodi archwilydd i archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol mwyach). Ni fyddai archwiliad ariannol y cyfrifon yn cynnwys, fel mater o drefn, graffu ar lwfansau neu hawliadau treuliau aelodau unigol; nid dyna swyddogaeth yr archwilydd. Bydd yr archwilydd yn cynnal profion ar sampl o drafodion er mwyn ffurfio barn ynglŷn â'r cyfrifon. Hyd yn oed petai'r archwilydd penodedig *wedi* profi trafodion a oedd yn cynnwys treuliau neu lwfansau aelodau yn 2013-14, yna fel y dywedwyd yn fy e-bost i chi ar 17 Mehefin 2015, nid yw'n dod o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, felly ni fyddai hawl i gael mynediad at wybodaeth o'r fath. Yn ogystal, ni fyddai'r archwilydd penodedig yn datgelu gwybodaeth o'r fath ar sail disgresiwn oherwydd gofynion cyfrinachedd archwiliadau.

Mae archwiliad 2013-14 wedi cau ac ni fyddem yn archwilio materion hanesyddol, ond os oes pryder parhaus yna, yn dibynnu ar natur y pryder hwnnw, mae'n bosibl y byddwn yn ystyried hynny mewn cysylltiad â'n gwaith archwilio yn y dyfodol. Os oes gennych bryder penodol, yna mae'n bosibl y byddwch yn dymuno darllen ein taflen ganllawiau ar gyfer gohebwy.

http://www.audit.wales/sites/default/files/download_documents/correspondents_leaflet_final_welsh.pdf

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau ynglŷn â'r modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips